

Ysgol Gymraeg Bro Ogwr

Hysbysiad Preifatrwydd GDPR Rhieni / Gofalwyr



Crëwyd gan y Sir / Devised by County: **Mai / May 2018**

Statws Polisi / *Policy Status*: **Statudol / Statutory**

Cytunwyd gan y Llywodraethwyr / *Agreed by the Governors*:

Cadeirydd y Llywodraethwr / *Chair of Governors*:

Dyddiad / *Date*:

Y cynllun i gael ei adolygu / *Policy to be revised* : **Ebrill / April 2021**

Hysbysiad Preifatrwydd i Rieni/Gofalwyr

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio pam mae angen gwybodaeth am ddisgyblion arnom a beth rydym yn ei wneud ag ef.

Cyfraith newydd

Mae rheolau ynglŷn â sut i gadw gwybodaeth yn ddiogel a sut mae'n cael ei rhannu. Mae'r rheolau hyn yn **Y Ddeddf Diogelu Data 1998**.

Ym Mai 2018, mae deddf newydd o'r enw **Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)**. Mae'n rhoi mwy o reolaeth ichi dros eich gwybodaeth. Mae'n sicrhau bod yn rhaid i unrhyw un sy'n casglu gwybodaeth:

- Fod yn onest ynghylch pam maen nhw am ei gael
- Bod yn glir ynghylch yr hyn y byddant yn ei wneud ag ef

Eich Gwybodaeth

Mae ysgolion yn casglu gwybodaeth am ddisgyblion a'u rhieni/gofalwyr/teuluoedd ac yn rhannu'r wybodaeth gyda'r awdurdod lleol perthnasol, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau statudol eraill.

Mae'r categorïau o wybodaeth am y disgyblion rydym yn eu casglu, eu dal a'u rhannu'n cynnwys:

- Gwybodaeth bersonol (fel enw, dyddiad geni, rhif unigryw'r disgybl, rhif unigryw'r dysgwr a chyfeiriad)
- Perthnasoedd (fel enwau rhieni/gofalwyr ac unrhyw berthnasau neu gysylltiadau eraill a ddarperir i'r ysgol) a manylion cyswllt
- Nodweddion (fel ethnigrwydd, iaith gyntaf, cenedligrwydd, gwlad geni, crefydd a chymhwysedd am brydau ysgol am ddim)
- Lefel rhuglder y disgybl yn yr iaith Gymraeg a sut y cafodd hyn ei asesu/ei ddarparu
- Gwybodaeth / cyflyrau meddygol (fel alergeddau)
- Statws anabledd
- Hanes ysgol
- Statws cofrestru a statws amser llawn neu ran-amser
- Gwybodaeth am anghenion dysgu ychwanegol
- Gwybodaeth ynghylch a yw'r disgybl yng ngofal yr awdurdod lleol

- Gwybodaeth ynghylch a yw'r disgybl yn cael cefnogaeth gan asiantaethau eraill
- Gwybodaeth am bresenoldeb (fel y sesiynau a fynychwyd, nifer yr absenoldebau a'r rhesymau am absenoldeb)
- Cyrhaeddiad ac asesiadau addysgol
- Unrhyw faterion neu broblemau sy'n dod i'r amlwg yn yr ysgol a'r camau a gymerwyd mewn ymateb (fel materion ymddygiadol, gwaharddiadau ac ati.)
- Gwybodaeth/cofnodion am gwnsela
- Gwybodaeth ariannol (fel balans prydau ysgol)
- Delweddau, a all gynnwys delweddau ffotograffig a delweddau CCTV

Pam rydym yn casglu ac yn defnyddio'r wybodaeth hon

Rydym yn defnyddio gwybodaeth y disgybl:

- I gefnogi dysgu'r disgyblion
- I fonitro ac adrodd ar gynydd disgyblion
- I ddarparu gofal bugeiliol priodol
- I asesu ansawdd ein gwasanaethau
- I gydymffurfio â'r gyfraith

Y sail gyfreithlon ar gyfer ein defnydd o'r wybodaeth hon

Rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am ddisgyblion dan **Ddeddf Addysg 1996** a'r rheoliadau cysylltiedig.

Casglu gwybodaeth am ddisgyblion

Er bod y mwyafrif o wybodaeth am y disgybl a roddwch inni yn orfodol, mae rhywfaint ohoni yn cael ei ddarparu i ni yn wirfoddol. Er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, **byddwn yn eich hysbysu os oes angen i chi ddarparu gwybodaeth disgyblion penodol i ni, neu os oes gennych ddewis yn hyn o beth.**

Storio data disgyblion

Rydym yn dal gwybodaeth am ddisgyblion nes bydd y disgybl yn cyrraedd ei ben-blwydd yn 25 oed.

Pwy rydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion â nhw

Fel rheol, rydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion yn rheolaidd gydag:

- Lleoliadau/ysgolion eraill y mae'r disgyblion yn eu mynychu
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Llywodraeth Cymru ac asiantaethau sy'n gweithredu ar ei ran
- Consortium Canolbarth y De (hwn yw'r consortiwm addysg rhanbarthol)
- Darparwyr iechyd ac asiantaethau statudol eraill

- Gyrfa Cymru

Pam rydym yn rhannu gwybodaeth disgyblion

Nid ydym yn rhannu gwybodaeth/data am ein disgyblion gydag unrhyw un heb ganiatâd oni bai fod y gyfraith a'n polisiau yn ein galluogi i wneud hynny.

Mae'n ofynnol i ni rannu gwybodaeth am ein disgyblion gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Llywodraeth Cymru.

Rydym yn rhannu gwybodaeth disgyblion â Llywodraeth Cymru ac asiantaethau sy'n gweithredu ar ei ran yn statudol. Mae'r rhannu data hwn yn sail i bolisi a monitro ariannu ysgolion a chyrhaeddiad addysgol.

Eich hawliau

Gwneud cais i weld eich data personol

Dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gan rieni/gofalwyr a disgyblion yr hawl i ofyn am fynediad at wybodaeth sydd gennym amdanynt. I wneud cais am eich gwybodaeth bersonol, neu i gael mynediad at gofnod addysgol eich plentyn, cysylltwch â'r Pennaeth.

Mae gennych yr hawl i:

- Weld unrhyw wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch chi
- Gofyn i ni newid unrhyw wybodaeth yr ydych yn meddwl sy'n anghywir
- Gofyn i ni beidio â rhannu eich gwybodaeth, ond ni fydd hyn yn berthnasol pan fydd angen i ni gael cefnogaeth i'r disgybl neu gadw'r disgybl yn ddiogel
- Gofyn i ni gael gwared ar wybodaeth o'n systemau.

Mae gan ddisgyblion (yn amodol ar rai cyfyngiadau) a rhieni/gofalwyr hefyd yr hawl i:

- Wrthwynebu prosesu data personol sy'n debygol o achosi, neu yn achosi, difrod neu ofid
- Atal prosesu at ddiben marchnata uniongyrchol
- Gwrthwynebu penderfyniadau sy'n cael eu cymryd trwy ddulliau awtomataidd
- Mewn rhai amgylchiadau, gael data personol anghywir ei gywiro, ei flocio, ei ddileu neu ei ddinistrio

Gallwch gwyno os ydych yn teimlo nad ydym yn parchu'ch hawliau.

Gallwch ofyn am gymorth gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Y manylion cyswllt yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Ffôn: **01625 545 745** neu **0303 123 1113**

DRAFT